Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 15 Medi 2021

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 21 MEDI 2021** am **10.00 am TRWY CYFRWNG FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2021 (copi ynghlwm).

**5 STRATEGAETH AR GYFER ATAL A CHANFOD TWYLL, LLYGREDIGAETH A LLWGRWOBRWYAETH A'R CYNLLUN YMATEB I DWYLL** (Tudalennau 13 - 50)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet o'r Strategaeth ddiwygiedig a'r Cynllun Ymateb i Dwyll cysylltiedig.

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2020/21** (Tudalennau 51 - 76)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â pherfformiad y swyddogaeth rheoli'r trysorlys ac i ddangos cydymffurfiaeth â chyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2020/21.

**7 FFRAMWAITH GWELLIANNAU ALLANOL AC ARBED YNNI TAI'R CYNGOR A DYFARNU CYSTADLEUAETH FECHAN** (Tudalennau 77 - 96)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r fframwaith i chwe chontractwr ac i dendro'r ddau ran cyntaf o'r fframwaith trwy gystadleuaeth fechan.

**8 ADEILADU 15 RHANDY AR GYFER RHENT CYMDEITHASOL YN Y DELL, PRESTATYN – DYFARNU CONTRACT** (Tudalennau 97 - 112)

Ystyried adroddiad **(sy'n cynnwys atodiad cyfrinachol)** gan y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract i adeiladu 15 rhandy ar gyfer rhent cymdeithasol yn y Dell ym Mhrestatyn.

**9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 113 - 164)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 165 - 170)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**11 CYNLLUNIAU BYW Â CHYMORTH ANABLEDDAU DYSGU SIR DDINBYCH - ESTYNIAD DROS DRO I AC AIL-DENDRO CONTRACTAU SY'N BODOLI** (Tudalennau 171 - 196)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i estyniad dros dro contractau a'r broses ar gyfer ail-dendro contractau mewn perthynas â Chynlluniau Byw â Chymorth Anableddau Dysgu Sir Ddinbych.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| **Hugh Evans** | **Tony Thomas** |
| **Bobby Feeley** | **Julian Thompson-Hill** |
| **Huw Hilditch-Roberts** | **Brian Jones** |
| **Richard Mainon** | **Mark Young** |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned